

## **WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU**

### **13–17 TACHWEDD 2023**

## **THEMA: YR ARGYFWNG COSTAU BYW**

### **A'R EFFAITH AR DDIOGELU.**

**#DiogeluCymru**

<b>Dydd Llun 13 Tachwedd</b>			
<b>Amser</b>	<b>Manylion am y digwyddiad</b>	<b>Cynulleidfa</b>	<b>Sut i gael mynediad</b>
10am	<p><b>Gofal Cymdeithasol Cymru</b></p> <p>Lansio Fframwaith Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol</p>	Gweithwyr proffesiynol	<p>Manylion pellach i ddilyn.</p> <p><a href="#">National safeguarding training, learning &amp; development framework launch Tickets, Mon 13 Nov 2023 at 10:00   Eventbrite</a></p>

<b>Dydd Mawrth 14 Tachwedd</b>			
<b>Amser</b>	<b>Manylion am y digwyddiad</b>	<b>Cynulleidfa</b>	<b>Sut i gael mynediad</b>
9.30am - 12.30pm	<p><b>Digwyddiad Rhanbarthol Rhithwir Rhwydweithiau Diogelu Lleol</b></p> <p>Cyflwyniadau gan:</p> <p><b>Dr. Steffan Evans. Sefydliad Bevan</b></p> <p>Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i effeithio ar deuluoedd ledled Cymru. Bydd Dr Steffan Evans, Pennaeth Polisi (Tlodi) Sefydliad Bevan yn ymuno â ni i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y mae'r argyfwng yn ei chael ar bobl yng Nghymru gan edrych ar bwy sy'n cael eu heffeithio fwyaf ac amlinellu rhai o'r heriau y mae teuluoedd yn debygol o'u hwynebu y gaeaf hwn.</p>	Gweithwyr proffesiynol	<p>I gadw lle, cliciwch ar y ddolen isod:</p> <p><a href="#">Digwyddiad Ymarferwyr Wythnos Genedlaethol Diogelu - 14.11.2023</a></p>

	<p><b>Ditectif Arolygydd Steve Davies, Heddlu Gwent, Uned Diogelu'r Cyhoedd</b></p> <p>Mae'r cyflwyniad hwn yn archwilio'r gwahanol fathau o dwyllo a sgamiau ar-lein ac yn nodi camau sy'n gallu cael eu cymryd i ddiogelu pobl ar-lein.</p> <p><b>Rob Parker, Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Recovery 4 All</b></p> <p>Mae Ara Recovery 4 All yn gweithio fel rhan o'r Rhwydwaith Cymorth Hapchwarae Cenedlaethol a nhw yw'r darparwyr cydnabyddedig yn genedlaethol i Gymru o gymorth a thriniaeth sy'n ymwneud â gamblo. Mae tîm ymgysylltu cymunedol newydd Ara yn chwilio am unrhyw gyfle i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau i ddarparu ymwybyddiaeth ac opsiynau i'r rhai sydd mewn swyddi cynorthwyo ac i ddarparu help a chymorth i unrhyw un gan gynnwys eraill sy'n cael eu heffeithio. Yn y sesiwn hon, byddwch chi'n cael rhagolwg o raglen ymwybyddiaeth Bet You Can Help Ara sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd. Byddwch chi'n deall mwy am niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, sut i'w adnabod, sut i ddarparu ymyriad byr gwell a ble i atgyfeirio unrhyw un a allai elwa o sgwrs neu gymorth pellach.</p> <p><b>Manon Roberts, Uwch Swyddog Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Athro Jo Peden, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd</b></p> <p>Mae'r argyfwng costau byw yn cael, a bydd yn parhau i gael, effeithiau eang a hirdymor ar fywydau o ddydd i ddydd pobl yng Nghymru, ond gydag effeithiau penodol ar blant. Mae'r effeithiau hyn yn peri pryder arbennig o ystyried sut mae profiadau o dlodi yn ystod plentyndod yn cael effeithiau negyddol hirdymor ar eu datblygiad ac ar eu hiechyd a'u ffyniant yn y dyfodol. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno canfyddiadau o adroddiad diweddar sy'n tynnu ar dystiolaeth o effaith yr argyfwng costau byw ar iechyd a llesiant plant i wneud argymhellion ar</p>		
--	--	--	--

	draws un ar ddeg o feysydd gweithredu polisi â blaenoriaeth.		
1.30pm– 2.30pm	<p><b>Cymunedau Ymarferwyr, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol</b></p> <p><b>Ditectif Arolygydd Jodie Davies, Adran Trwyddedu Drylliau Tanio Heddlu Gwent</b></p> <p>Nod y cyflwyniad hwn yw galluogi ymarferwyr i gyflawni'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ennill dealltwriaeth o Drwyddedu Drylliau Tanio a diogelu</li> <li>• Ennill dealltwriaeth o Ganllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ynghylch gwrthod a dirymu trwyddedau</li> <li>• Ennill gwell dealltwriaeth o sut i rannu gwybodaeth, codi pryderon a gofyn am wybodaeth</li> </ul>	Gweithwyr proffesiynol	<a href="https://www.eventbrite.co.uk/e/safeguarding-dv-and-firearms-licensing-tickets-736366019587?aff=oddtcreator">https://www.eventbrite.co.uk/e/safeguarding-dv-and-firearms-licensing-tickets-736366019587?aff=oddtcreator</a>

<b>Dydd Mercher 15 Tachwedd</b>			
<b>Amser</b>	<b>Manylion am y digwyddiad</b>	<b>Cynulleidfa</b>	<b>Sut i gael mynediad</b>
9.30am- 12pm  1pm-3pm	<p><b>Gweminar y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</b></p> <p>Cyflwyniadau gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball o Brifysgol Fetropolitan Manceinion</li> <li>• Yr Athro Louise Almond o Brifysgol Lerpwl</li> <li>• Arolygiaeth Gofal Cymru</li> <li>• Gofal Cymdeithasol Cymru</li> </ul>	Gweithwyr proffesiynol	<a href="https://www.eventbrite.co.uk/e/strengthening-our-collective-safeguarding-responsibility-tickets-740654065247?aff=oddtcreator">https://www.eventbrite.co.uk/e/strengthening-our-collective-safeguarding-responsibility-tickets-740654065247?aff=oddtcreator</a>
9.30am– 11am	<p><b>Prifysgol De Cymru ac Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent</b></p> <p>Codi ymwybyddiaeth o rôl Bwrdd Diogelu Gwent</p> <p>Archwilio effaith yr argyfwng costau byw ar fyfyrwyr o safbwynt diogelu</p>	Myfyrwyr Prifysgol De Cymru	Wyneb yn wyneb i fyfyrwyr prifysgol

<b>Dydd Iau 16 Tachwedd</b>			
<b>Amser</b>	<b>Manylion am y digwyddiad</b>	<b>Cynulleidfa</b>	<b>Sut i gael mynediad</b>
1pm-3.30pm	<p><b>Digwyddiad Rhanbarthol Rhithwir Rhwydweithiau Diogelu Lleol</b></p> <p>Cyflwyniadau gan:</p> <p><b>Dr Sam Clutton, Llywodraeth Cymru, Uwch Reolwr Polisi Diogelu Plant</b></p> <p><b>Louise Hughes, Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Age Cymru</b></p> <p>Bydd y cyflwyniad hwn yn archwilio effaith yr argyfwng costau byw ar bobl hŷn.</p> <p><b>Sally Holland, Athro Gwaith Cymdeithasol, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd, CASCADE</b></p> <p>Yn y cyflwyniad hwn, bydd yr Athro Sally Holland yn amlinellu'n gryno rai o'r pwysau presennol ar deuluoedd a'r effaith y gallai hynny ei chael ar gam-drin ac esgeuluso plant. Bydd hi'n cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth am yr effaith ar gam-drin plant pan fydd pwysau ariannol ar deuluoedd yn cael eu lleddfu'n rhannol. Bydd hi'n gorffen drwy archwilio beth mae 'ymarfer gwrth-dlodi' yn ei olygu i ymarferwyr unigol a pholisïau'r llywodraeth.</p> <p><b>Pete Maidment, Uwch Arweinydd Gwasanaethau i Gwsmeriaid, yr Adran Gwaith a Phensiynau</b></p> <p>Bydd y cyflwyniad hwn yn archwilio effaith yr argyfwng costau byw yng Nghymru o safbwynt yr Adran Gwaith a Phensiynau.</p>	Asiantaethau Rhwydweithiau Diogelu Lleol	<a href="#"><u>Digwyddiad Ymarferwyr Wythnos Genedlaethol Diogelu - 16.11.2023</u></a>